Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Medr/2026/25: Atodiad A

# Datganiad Polisi Buddsoddi

Mehefin 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

**Rhagair**

Mae'r Datganiad Polisi Buddsoddi hwn yn nodi sut y bydd Medr yn defnyddio cyllid cyhoeddus i fuddsoddi mewn addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae'n sefydlu'r egwyddorion sy'n llywio ein penderfyniadau buddsoddi ac mae'n cyd-fynd â'n Cynllun Strategol. Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i gefnogi dysgwyr, cymunedau, cyflogwyr a budd ehangach y cyhoedd, gan barhau i gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio.

Mae'n cynnig fframwaith strategol ar lefel y system ar gyfer y ffordd y byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau cyllido, fel y'u nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru (2022). Ochr yn ochr â hyn, bydd methodolegau a chanllawiau cyllido manwl yn parhau i esbonio sut y caiff cyllid ei ddyrannu a'i reoli rhwng rhaglenni a mathau o ddarpariaeth.

Defnyddiwn y term ‘buddsoddi’ mewn modd pwrpasol yn y datganiad, gan symud i ffwrdd o'r term mwy trafodiadol ‘cyllido’. Mae'n adlewyrchu ffordd wahanol o weld a deall y berthynas rhwng Medr a'r sector addysg drydyddol. Yn hanesyddol, mae'r berthynas honno wedi cael ei thrafod yn nhermau cyllido ac, er bod atebolrwydd yn dal yn hanfodol, mae'r heriau sy'n wynebu Cymru, ei dysgwyr, ei chyflogwyr a'i chymunedau yn gofyn am bersbectif ehangach a mwy strategol sy'n seiliedig ar fuddsoddi yn ein dysgwyr.

Mae darpariaeth addysg drydyddol ac ymchwil yn rhan o'r seilwaith cenedlaethol, gan gefnogi cadernid economaidd, galluogi symudedd cymdeithasol, atgyfnerthu cydlyniant cymunedol, cyfoethogi bywyd dinesig a diwylliannol a datblygu'r sgiliau, galluoedd a’r cyfleoedd ieithyddol sy'n angenrheidiol ym mhob rhan o'r gweithlu a thrwy gydol oes.

Yn y cyd-destun hwn, ceir dealltwriaeth gynyddol bod adnoddau cyhoeddus nid yn unig yn cyllido gweithgarwch, ond hefyd yn buddsoddi mewn capasiti, galluogrwydd a gwerth cymdeithasol hirdymor. Mae hyn yn adlewyrchu newid mewn meddylfryd, gan gydnabod bod newid ystyrlon a pharhaol yn annhebygol o gael ei gyflawni drwy gydberthnasau trafodiadol byrdymor yn unig ac, yn lle hynny, bod angen gweithredu mewn ffordd fwy parhaus a strategol.

Mae'r datganiad hwn yn gam pwysig tuag at osod y cyfeiriad hwnnw.

**James Owen, Prif Weithredwr Medr**

# Datganiad Polisi Buddsoddi


**Mehefin 2026**

## Cyflwyniad

Mae ein Datganiad Polisi Buddsoddi yn amlinellu'r ffordd rydym yn bwriadu arfer ein pwerau cyllido. Mae Adran 87 o [Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022](#) yn nodi ei bod yn rhaid i Medr ymgynghori ar ddatganiad polisi ynghylch y ffordd rydym yn bwriadu arfer ein pwerau cyllido, a chyhoeddi'r datganiad hwnnw. Bydd y datganiad hwn yn llywio buddsoddiad a wneir o dan y pwerau canlynol:

adran 88 (darparwyr addysg uwch penodedig);
adran 89 (cyrsiau addysg uwch a bennir mewn rheoliadau);
adran 97 (addysg bellach neu hyfforddiant);
adran 101 (chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol);
adran 103 (gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol);
adran 104 (prentisiaethau);
adran 105 (ymchwil ac arloesi).

Wrth arfer y pwerau hyn, er ei bod yn bosibl y bydd darparwyr a darpariaeth yn gymwys i gael cyllid, ni fydd hyn yn gwarantu buddsoddiad. Hefyd, mae'r datganiad hwn yn berthnasol o fewn cyfyngiadau cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i Medr, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Fel y gwelir yn y diagram isod, caiff ein buddsoddiad ei ategu drwy ddeilliannau seiliedig ar dystiolaeth gan gynllun strategol Medr a'r fframwaith rheoleiddio, gan sicrhau ein bod yn diogelu arian y cyhoedd, ar gyfer pob ffrwd gyllido. Dim ond y darparwyr hynny sydd â'r gallu i gyflawni ein blaenoriaethau buddsoddi, a phan fyddwn wedi cael sicrwydd y byddant yn bodloni'r amodau grant a chyllid, y dyrennir cyllid iddynt.



Wrth baratoi'r datganiad, wnaethon ni ystyried yr egwyddor y dylai penderfyniadau ynglŷn â darparu neu sicrhau adnoddau ariannol gael eu gwneud mewn ffordd sy'n dryloyw.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn buddsoddi yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar reoli arian cyhoeddus. Ein bwriad yw y bydd y datganiad hwn yn ategu ac yn llywio'r penderfyniadau buddsoddi a chyllido a wnawn er mwyn sicrhau y caiff ein buddsoddiad ei ddefnyddio'n effeithiol.

I gyd-fynd â'n hegwyddorion tryloywder ac atebolrwydd, byddwn yn rhoi datganiad polisi ar waith sy'n seiliedig ar ymgynghori. Byddwn yn adolygu'r datganiad yn rheolaidd, gan weithio mewn partneriaeth gymdeithasol agos â rhanddeiliaid ac undebau, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn galluogi ein buddsoddiad i sicrhau'r deilliannau rydym yn ceisio eu cyflawni. Byddwn yn ymgynghori ar unrhyw ddiwygiadau arfaethedig yn dilyn adolygiad.

Defnyddiwn y term ‘buddsoddi’ yn fwriadol, gan gydnabod ehangder ein cyfrifoldebau a'r angen i fod yn gytbwys wrth ymdrin â chyllid ar gyfer addysg drydyddol. Caiff y cyllid a gawn gan Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn system addysg drydyddol gydlynol, effeithlon ac effeithiol, er mwyn cefnogi ffyniant a llesiant pobl Cymru, a'r economi ehangach, yn y dyfodol.

## Diben a dull buddsoddi

Buddsoddiad mewn darpariaeth addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru yw ein cyllid. Ei ddiben yw:

- Ysgogi a llywio effaith a deilliannau cadarnhaol ar gyfer dysgwyr, cyflogwyr, cymunedau, a'r economi.
- Adlewyrchu dyletswyddau statudol, gweledigaeth a chynllun strategol Medr ym mhob penderfyniad buddsoddi.
- Cydnabod rolau gwahanol a chyflenwol darparwyr, a gwerth cydweithio pan fydd hynny'n sicrhau gwell deilliannau a buddiannau i ddysgwyr a Chymru.
- Cefnogi polisïau ac amcanion ehangach Llywodraeth Cymru.
- Pennu meini prawf cymhwysedd clir mewn perthynas â'r ddarpariaeth y byddwn yn buddsoddi ynddi a'r hyn sydd y tu allan i gwmpas ein buddsoddiad. Bydd ein buddsoddiad yn cefnogi ein gwaith rheoleiddio, ac yn cael ei gefnogi ganddo, gan sicrhau ein bod yn diogelu arian y cyhoedd.
- Dyrannu cyllid cyhoeddus mewn modd tryloyw, gan sicrhau bod gan randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, y Llywodraeth, a'r cyhoedd yn ehangach, fynediad clir at wybodaeth am y ffordd rydym yn buddsoddi er mwyn cefnogi addysg, ymchwil ac arloesi ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol yng Nghymru.

## Sefydlogrwydd, cynaliadwyedd ac atebolrwydd

Sefydlwyd Medr er mwyn sicrhau newid. Wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod bod angen dull buddsoddi sydd â'r nod o gynnig sefydlogrwydd i ddarparwyr, gan gefnogi gwaith cynllunio effeithiol.

Caiff cyllid ei ddyrannu a'i fonitro yn seiliedig ar gyflawni'r budd mwyaf yn berthynol i'r buddsoddiad, gan ystyried ansawdd, deilliannau ac effaith hirdymor. Byddwn yn taro cydbwysedd rhwng y ffordd y byddwn yn buddsoddi a'n hysgogiadau rheoleiddiol er mwyn lleihau baich gweinyddol cymaint â phosibl.

## Dysgu gydol oes

Bydd ein buddsoddiad yn helpu pobl i fanteisio ar gyfleoedd, trwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg, i ddysgu ar bob cam mewn bywyd. Mae dull buddsoddi Medr yn cydnabod pwysigrwydd uwchsgilio, ailsgilio, dysgu dwyieithog a manteision ehangach dysgu parhaus, mewn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau personol, blaenoriaethau economaidd a dyheadau ac anghenion unigolion wrth iddynt ddatblygu.

Bydd ein buddsoddiad yn annog ac yn cefnogi'r canlynol:

- mynediad at addysg sylfaenol i oedolion ar gyfer pobl â chymwysterau ar lefelau isel, os o gwbl;
- cyfleoedd dysgu hyblyg ac ymatebol sy'n bodloni dewisiadau dysgwyr ac yn diwallu anghenion cyflogwyr;
- llwybrau dysgu sy'n cefnogi cynnydd dros amser.

## Tegwch a chynhwysiant

Rydym yn ymrwymedig i greu system addysg drydyddol gynhwysol sy'n dileu rhwystrau ac yn helpu dysgwyr i ddod o hyd i'r ffordd orau o ddysgu iddyn nhw.

Yn unol â'n fframwaith rheoleiddio, bydd ein buddsoddiad yn gwneud y canlynol:

- galluogi dysgwyr o bob cefndir ac ardal ddaearyddol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, i gael addysg a hyfforddiant a llwyddo ynddynt;
- helpu i ehangu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwaith ymchwil ac arloesi ar gyfer unigolion o bob cefndir;
- hyrwyddo tegwch o ran cyfleoedd i fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgu ym mhob rhan o Gymru, wedi'u llywio gan anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol; and
- cefnogi teithiau dysgwyr clir sydd wedi'u diffinio'n dda drwy ymateb i anghydraddoldebau strwythurol a rhanbarthol.

## Buddsoddiad, ansawdd a deilliannau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr

Dysgwyr fydd wrth wraidd ein penderfyniadau buddsoddi. Bydd ein buddsoddiad yn hybu profiad, deilliannau a llesiant dysgwyr, gan gefnogi teithiau dysgwyr drwy bob math o ddarpariaeth addysg drydyddol, yn seiliedig ar sylfaen wybodaeth o ansawdd da.

Bydd ein buddsoddiad yn cyd-fynd â'n huchelgais i sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o ansawdd da mewn sector addysg drydyddol sy'n ymdrechu i wella'n barhaus.

Caiff ein penderfyniadau buddsoddi eu llywio gan dystiolaeth ac amrywiaeth o fesurau, gyda ffocws ar y canlynol:

- sicrhau cyfranogiad, cynnydd, a chyrhaeddiad llwyddiannus;
- cefnogi cyrchfannau dysgwyr a helpu dysgwyr i gamu ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach;
- atgyfnerthu lefelau ymgysylltu dysgwyr â'u haddysgu a'u dysgu;
- cael ein llywio gan lais y dysgwr;
- cyd-fynd ag anghenion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol Cymru.

## Rhagoriaeth ymchwil

Bydd buddsoddiad Medr mewn ymchwil ac arloesi yn cynnal capasiti craidd, sy'n golygu y gellir mynd ar drywydd gwybodaeth newydd a mathau newydd o ddealltwriaeth er mwyn mynd i'r afael â heriau'r presennol a'r dyfodol, a'r ffyrdd y caiff ei gymhwyso yn ein heconomi, ein diwylliant a'n cymdeithas.

Bydd ein buddsoddiad yn:

- ystyried cyd-destun y DU a'r cyd-destun byd-eang sy'n sail ar gyfer gwneud gwaith ymchwil ac arloesi a dyfarnu cyllid cystadleuol;
- annog cydweithio â darparwyr addysg drydyddol eraill, a busnesau, diwydiant, a'r sector cyhoeddus, a hynny yng Nghymru a thu hwnt;
- cefnogi amgylcheddau sydd â diwylliannau cadarnhaol sy'n hyrwyddo uniondeb, amrywiaeth, cynwysoldeb, a pharch;
- defnyddio asesiadau cadarn o ragoriaeth, buddiannau, ac effaith i hybu gwelliant parhaus.

## Cydweithio, cydlyniant ac effeithlonrwydd systemau

Bydd buddsoddiad Medr yn hybu ac yn cymell cydweithio ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol.

Bydd ein buddsoddiad yn:

- annog atebion cydweithredol er mwyn cynnal ehangder darpariaeth a llwybrau clir i ddysgwyr;
- sicrhau mwy o enillion ar fuddsoddiad drwy fuddiannau maint a gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd drwy'r system gyfan;
- anelu at gysondeb â ffrydiau cyllido eraill er mwyn diwallu anghenion Cymru yn effeithiol ac yn effeithlon.

## Y gallu i ymateb i anghenion economaidd a chymdeithasol

Bydd ein buddsoddiad yn galluogi darpariaeth sy'n ymateb i flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o ran sgiliau, gwybodaeth am y farchnad lafur, ac anghenion a gofynion cymunedau a dysgwyr.

Bydd ein buddsoddiad yn:

- cefnogi'r sgiliau y bydd eu hangen er mwyn sicrhau economi gynhyrchiol, arloesol a chynaliadwy;
- sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at dwf economaidd cynaliadwy drwy annog cydberthnasau agos ac ymatebol rhwng darparwyr a chyflogwyr;
- hyrwyddo gweithgareddau cenhadaeth ddinesig darparwyr er mwyn iddynt fod yn agored, yn weithredol ac yn ymatebol o fewn eu cymunedau a chymdeithas ddinesig ehangach;
- helpu'r sector addysg drydyddol i fabwysiadu a chynnal rhagolwg byd-eang sy'n adnabod cyfleoedd ar gyfer symudedd staff a dysgwyr ac sy'n cefnogi cydweithio â phartneriaid rhyngwladol.

## Y Gymraeg

Mae gan Medr rôl arwyddocaol i'w chyflawni o ran cyfrannu at strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at huchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg bob dydd erbyn 2050, a gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg . Bydd ein penderfyniadau buddsoddi yn hybu'r galw am addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r Gymraeg fel pwnc lle y caiff ei gynnig, a chyfranogiad mewn addysg o'r fath, gan helpu dysgwyr a staff i symud ymhellach ar hyd y continwwm sgiliau Cymraeg. Bydd ein buddsoddiad yn helpu i feithrin capasiti'r system er mwyn i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg allu tyfu ac ymateb i'r cynnydd yn y galw dros amser.

Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn wneud y gorau o fuddsoddiad i hybu ac annog ymchwilwyr, gan gynnwys staff ymchwil ac ymchwilwyr ôl-raddedig, i gynnal gweithgareddau ymchwil ac arloesi sy'n cefnogi'r Gymraeg.

Bydd ein buddsoddiad yn:

- ystyried yr effeithiau, os o gwbl, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- asesu sut y gellid gwneud y penderfyniad neu ei roi ar waith mewn ffordd a fyddai'n cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol, neu'n peidio â chael effeithiau andwyol neu effeithiau mwy andwyol, ar y Gymraeg;
- ystyried a oes angen rhagor o wybodaeth er mwyn helpu i asesu effeithiau dyfarnu'r grant neu gymorth ariannol ar y Gymraeg.

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government